

ADRAN ADDYSG A DYSGU GYDOL OES CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, 1963, Deddf Addysg 1996,
Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn yn y Gwaith) 1998
CYFLOGI PLANT

I'W GWBLHAU GAN RIANT NEU WARCHEIDWAD Y PLENTYN MEWN PRIFLYTHRENNAU A DYLLID ATODI UN FFOTOGRAFF PASBORT

Enw'r Plentyn (yn llawn):	
Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad (gan gynnwys cod post):	
Rhif ffôn:	
Ysgol a fynychir:	
Enw'r Rhiant / Gwarcheidwad:	

(Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chymharu yn erbyn cofnodion yr ysgol)

DATGANIAD

Yr wyf yn cadarnhau bod y dyddiad geni ar gyfer y plentyn a enwir uchod yn gywir a'i fod ef/bod hi yn ffit yn feddygol ac yn gallu ymgymryd â dyletswyddau'r gyflogaeth hon. Yr wyf hefyd yn cadarnhau fy mod wedi derbyn copi o Reoliad Cyflogi Plant 1999 a chaniatâd i'r gyflogaeth hon.

Llofnod rhiant / gwarcheidwad: _____

Dyddiad: _____

Sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd y wybodaeth uchod yn cael ei chofnodi ar ein cronfa ddata o gofnodion disgyblion ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch hwn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei phrosesu gan y Gwasanaeth Lles Addysg (EWS) sef yr adran yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) sydd â'r cyfrifoldeb statudol am gyflogi plant. Mae gwybodaeth bellach am sut y caiff y wybodaeth ei phrosesu a'i defnyddio ar gael ar ffurf hysbysiad preifatrwydd llawn yn www.caerffili.gov.uk

I'W GWBLHAU GAN Y CYFLOGWR MEWN PRIFLYTHRENNAU.

Enw'r cyflogwr:	
Enw'r cwmni os yw'n wahanol i'r uchod:	
Cyfeiriad:	
Rhif ffôn:	
Natur y busnes:	
Natur y gyflogaeth:	
Lleoliad y gyflogaeth:	

DYDDIAU AC ORIAU'R GYFLOGAETH

Ticiwch isod fel y bo'n briodol	UCHAFSWM YR ORIAU A GANIATEIR	13-14 OED	15-16 OED
	Ar ddyddiau'r wythnos rhwng 7 a.m. a dechrau'r ysgol (uchafswm o 1 awr) a rhwng amser cau'r ysgol a 7p.m.	2	2
	Ar ddyddiau'r ysgol rhwng amser cau'r ysgol a 7p.m.	2	2
	Ar ddydd Sadwrn rhwng 7a.m. a 7 p.m.	5	8
	Ar ddydd Sul rhwng 7a.m. a 7 p.m.	2	2
	Yn ystod gwyliau'r ysgol rhwng 7a.m. a 7 p.m.	25 awr yr wythnos	35 awr yr wythnos
* Ni chaniateir i unrhyw blentyn o unrhyw oedran weithio mwy na 4 awr mewn unrhyw ddiwrnod heb egwyl o 1 awr			
Mae'n rhaidd i blant gael egwyl yn ystod gwyliau'r ysgol o 2 wythnos yn olynol bob blwyddyn			

DATGANIAD

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Pobl Ifanc) 1997 yr wyf yn datgan bod asesiad risg wedi'i gynnal ar gyfer y dyletswyddau sydd eu hangen ar gyfer y gyflogaeth hon. (Mae'n rhaid i'r cyflogwr gynnal asesiad risg cyn i'r plentyn gael ei gyflogi)

Llofnod Cyflogwr: _____ Dyddiad: _____

Cwmni Yswiriant _____ Rhif y Polisi _____ Dyddiad dod i ben _____

Ar ôl cwblhau'r ffurflen hon dylid ei hanfon at: Swyddog Cyflogaeth Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,
Gwasanaeth Lles Addysg, Tŷ Penallta, Ystrad Mynach, Hengoed
CF82 7PG.

Ffôn: 01443 866661, E-bost: llesaddysg@caerffili.gov.uk

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG:	Rhif y Drwydded:	
Dyddiad Cyhoeddi:	Dilys hyd at:	

ADRAN ADDYSG A HAMDDEN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933,1963, Deddf Addysg 1996, Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn yn y Gwaith) 1998

RHEOLIAD CYFLOGI PLANT 1999

Yr oriau gwaith a ganiateir:

Os ydych yn gweithio, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol hyd nes y byddwch yn cyrraedd oedran gadael yr ysgol. Dylid cwblhau ffurflen gais wedi'i llofnodi gan eich rhieni a'ch cyflogwr a'i hanfon i'r cyfeiriad isod cyni chi ddechrau gweithio.

Pan fyddwch yn	Gallwch weithio ar	Yn ystod yr oriau canlynol-
13 a 14	DYDDIAU YSGOL	Dim mwy na chyfanswm o 2 awr mewn un diwrnod yn ystod y cyfnodau canlynol: a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r ysgol (uchafswm o 1 awr) b) Gyda'r nos rhwng amser cau'r ysgol a 7pm.
	DYDD SADWRN*	5 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
	DYDD Sul	2 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
	GWYLIAU'R YSGOL *	5 awr y dydd ar ddyddiau'r wythnos (ac eithrio dydd Sul) rhwng 7am a 7pm, ond ni ddylai cyfanswm yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos fod yn fwy na 25 awr. Mae'n rhaid i chi gael 2 wythnos yn olynol o seibiant mewn blwyddyn ac mae'n rhaid cymryd y rhain yn ystod gwyliau'r ysgol.
15	DYDDIAU YSGOL	Dim mwy na chyfanswm o 2 awr mewn un diwrnod yn ystod y cyfnodau canlynol. a) Yn y bore rhwng 7am a dechrau'r ysgol (uchafswm o 1 awr) b) Gyda'r nos rhwng amser cau'r ysgol a 7pm.
	DYDD SADWRN*	8 awr y dydd rhwng 7am a 7pm
	DYDD SUL	2 awr y dydd rhwng 7am a 7pm

	GWYLIAU YSGOL*	8 awr y dydd ar ddyddiau'r wythnos (ac eithrio dydd Sul) rhwng 7am a 7pm, ond ni ddylai cyfanswm yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos fod yn fwy na 25 awr. Mae'n rhaid i chi gael 2 wythnos yn olynol o seibiant mewn blwyddyn ac mae'n rhaid cymryd y rhain yn ystod gwyliau'r ysgol.
Pan fyddwch yn 16	Bydd yr oriau cyflogaeth sy'n berthnasol i blant 15 oed yn berthnasol tra byddwch o oedran ysgol gorfodol. Os ydych yn dymuno, gallwch adael yr ysgol yn gyfreithiol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y byddwch yn 16 oed. Ni allwch ymgymryd â chyflogaeth llawn amser cyn y dyddiad hwnnw.	

*Ni chaniateir i unrhyw blentyn o oedran gwaith weithio mwy na 4 awr mewn unrhyw ddydd heb seibiant o 1 awr

GWAITH A GANIATEIR

Pan fyddwch yn 13	Gallwch ond gael eich cyflogi mewn 'gwaith ysgafn' ar un neu fwy o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> - Gwaith amaethyddol neu arddwriaethol - Dosbarthu papurau newydd, cyfnodolion a deunydd argraffedig arall - Gwaith siop, gan gynnwys llenwi silffoedd - Siopau trin gwallt - Gwaith swyddfa - Golchi ceir â llaw mewn lleoliad preswyl - Mewn caffi neu fwyty - Mewn stablau marchogaeth - Gwaith domestig mewn gwestai a sefydliadau eraill sy'n cynnig llety
Pan fyddwch yn 14 a 15	Dim ond mewn gwaith ysgafn y gellir eich cyflogi. Gallwch wneud gwaith masnachu ar y stryd <u>os</u> cewch eich cyflogi gan eich rhiant mewn cysylltiad â'u busnes <u>ac</u> os ydych yn cael eich goruchwyllo ganddynt, neu os ydych wedi derbyn trwydded masnachwyr stryd gan yr awdurdod lleol.
<u>Pan fyddwch yn</u> 16	Bydd y cyfyngiadau uchod yn parhau i fod yn berthnasol tra byddwch o oedran ysgol gorfodol (gweler drosodd)

Cyflogaeth a waherddir i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol

Ni ellir cyflogi plentyn o unrhyw oedran

- Mewn sinema, theatr, discotheque, neuadd ddawnsio neu glwb nos, ac eithrio mewn cysylltiad â pherfformiad a roddir gan blant yn unig

- I werthu neu ddsbarthu alcohol, ac eithrio mewn cynwysyddion wedi'u selio
- I ddsbarthu llaeth
- I ddsbarthu olew tanwydd
- Mewn cegin fasnachol
- I gasglu neu dddoli gwastraff
- Mewn unrhyw waith sy'n fwy na thri metr uwchben lefel y ddaear neu, yn achos gwaith mewnol, fwy na thri metel uwchben lefel y llawr
- Mewn cyflogaeth sy'n cynnwys amlygiad niweidiol i asiantau ffisegol, biolegol neu gemegol
- I gasglu arian neu werthu neu ganfasio o ddrws i ddrws, ac eithrio o dan oruchwyliaeth oedolyn
- Mewn gwaith sy'n golygu amlygiad i ddeunydd oedolion neu mewn sefyllfaoedd sydd, am y rheswm hwn, yn anaddas i blant
- Mewn gwerthiannau ffôn
- Mewn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o unrhyw siop gigydd neu unrhyw leoliad arall sy'n gysylltiedig â lladd da byw, cigyddiaeth, neu i baratoi carcasau neu gig i'w gwerthu
- Fel gweinydd neu gynorthwydd ar gae ffair neu arcêd difyrion neu unrhyw leoliad arall a ddefnyddir at ddiben difyrru'r cyhoedd drwy beiriannau awtomatig, gemau siawns neu ddyfeisiadau sgil neu debyg
- Ar gyfer gofal personol neu breswylwyr unrhyw gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio oni fydd hynny o dan oruchwyliaeth oedolyn cyfrifol